COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Adroddiad gan

Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

i

Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Iechyd Meddwl a Phlismona

Gorffennaf 2019

Cyflwyniad

Yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2017-21, mae'r Comisiynydd yn nodi ei fwriad i ddiogelu pobl fregus drwy "wella ein dealltwriaeth a'n hymateb i bobl â salwch meddwl". Yn benodol, gwnaed ymrwymiad i:

- weithio gyda phartneriaid i wella ein dealltwriaeth o'r gofynion sydd yn gysylltiedig â salwch meddwl ac i ddatblygu ymateb mwy cydlynol i ddigwyddiadau'n ymwneud â salwch meddwl;
- eiriol ymateb rhesymol a chymesur gan staff rheng flaen wrth ymdrin â phobl sy'n dioddef salwch meddwl;
- ymgysylltu a gweithio gyda phobl sydd wedi byw gyda salwch meddwl er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r materion y maent yn eu hwynebu; a
- chefnogi'r Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau bod pobl sy'n dioddef salwch meddwl yn cael eu trin mewn canolfan iechyd ac nid yn cael eu cadw yn y ddalfa.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma.

Y Darlun Cenedlaethol

Yn dilyn gwaith archwilio Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu, cyhoeddodd Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi adroddiad cenedlaethol ddiwedd 2018 o'r enw 'Plismona ac Iechyd Meddwl - Codi'r Darnau', a oedd yn dweud:

> *"Er bod gwasanaeth yr heddlu'n gwneud gwaith da dan amgylchiadau anodd, ceir pryderon ynghylch a ddylai'r heddlu fod yn gysylltiedig ag ymateb i broblemau iechyd meddwl ar y lefel bresennol. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod angen ailfeddwl mewn modd radical ynghylch hyn a chael ateb tymor hirach i'r hyn sydd wedi dod yn argyfwng cenedlaethol."*

Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad cenedlaethol:

- **Mae'r heddlu'n gweithio y tu hwnt i'w dyletswydd**

Yn ymateb y Comisiynydd i'r adroddiad, nodwyd bod y Prif Gwnstabl Collins wedi adrodd mai sefydliadau byrddau iechyd lleol yw un o'r galwyr mwyaf mynych yn adrodd am bryderon ynglŷn â diogelwch a lles y cyhoedd.

- **Mae angen darlun cliriach ar heddluoedd o'r galw sydd arnynt mewn perthynas ag iechyd meddwl**

Cyfeiriodd yr adroddiad at y diwrnodau sy'n rhoi cipolwg ar y galw ar draws Cymru gyfan fel enghraifft o arfer da. Mae disgwyl i'r rhain gael eu hailadrodd ar lefel leol yn ogystal ag ar draws Cymru a Lloegr gyfan yn ystod y flwyddyn i ddod.

- **Mae heddluoedd yn dda am adnabod ac ymateb i salwch meddwl**

Cafodd gwasanaeth brysbennu iechyd meddwl Heddlu Dyfed-Powys, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ei ymestyn o 4 i 7 diwrnod yr wythnos diwrnod o fis Mai 2018 ymlaen. Mae Heddlu Dyfed-Powys wrthi'n adolygu effaith y gwasanaeth hwn.

- **Mae ansawdd a chydweithio mewn perthynas â hyfforddiant iechyd meddwl yn anghyson**

Mae pecyn hyfforddi Heddlu Dyfed-Powys wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio gyda chefnogaeth partneriaid iechyd meddwl lleol, ac mae bellach yn cael ei ddarparu ar y cyd i swyddogion yr heddlu, staff a phartneriaid.

- **Mae angen i heddluoedd gynnwys / ymgynghori â'r rhai hynny sydd wedi cael profiad uniongyrchol o salwch meddwl a chysylltiad â'r heddlu er mwyn llywio eu strategaethau, eu hyfforddiant a'u hymateb yn well.**

Yn ddiweddar, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnal gweithdai gyda defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl a'u gofalwyr er mwyn ystyried eu profiadau o ymwneud â'r heddlu. Bydd y ddealltwriaeth a geir yn sgil hyn yn cynorthwyo'r heddlu wrth wneud gwelliannau pellach i'r modd y maent yn ymateb i unigolion mewn argyfwng.

- **Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol i leihau'r galw a'r costau cysylltiedig.**

Yn Natganiad Rheoli'r Heddlu ar gyfer 2019, nododd Heddlu Dyfed-Powys bod bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl a gedwir yn y ddalfa oherwydd iddynt droseddu sy'n dangos arwyddion o salwch meddwl. Mae'r cynllun Braenaru dargyfeiriol hefyd wedi wynebu problemau tebyg o ran cael gafael ar gefnogaeth gan wasanaeth iechyd meddwl. Mae cynrychiolwyr o'r heddlu ac o'r maes iechyd yn cydweithio i ddatblygu llwybr addas i staff y ddalfa ei ddilyn er mwyn sicrhau bod pobl fregus a gedwir yn y ddalfa yn cael y gefnogaeth fwyaf priodol.

Mae Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Profiannaeth Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi nodi y byddant yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o lwybrau iechyd meddwl ar draws y system cyfiawnder troseddol yn ystod 2019/20 er mwyn targedu gweithgareddau arolygu yn y dyfodol. Mae gwaith wedi dechrau i adnabod ffrydiau gwaith a fydd, ochr yn ochr â'i gilydd, yn cwmpasu triniaeth i ddioddefwyr a throseddwyr fel ei gilydd.

Gwaith Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Trosolwg a sicrwydd annibynnol

Mae gan y Comisiynydd drosolwg o ymateb yr Heddlu i iechyd meddwl drwy ei aelodaeth o'r Grŵp Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl a'r data a ddarperir drwy'r Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau bob tri mis. Mae heddluoedd yn casglu data ar gludiant o'r ddalfa i fannau diogel ac yn adrodd ar hyn i'r Swyddfa Gartref yn y ffurflen ddata flynyddol. Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn adolygu'r holl asesiadau iechyd meddwl sy'n cymryd dros 10 awr i'w cwblhau.

Derbyniodd ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa y Comisiynydd fewnbwn ar iechyd meddwl yn nalfa'r heddlu yn ystod eu diwrnod hyfforddiant blynyddol yn ddiweddar. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn un o 7[1] o swyddfeydd Comisiynwyr sy'n paratoi i dreialu cynllun newydd yn cynnig ymweliadau estynedig â'r ddalfa gan ddechrau ym mis Awst 2019. Bydd adolygiadau manwl o gofnodion unigolion bregus tra roeddent yn y ddalfa yn ystyried eu taith gyfan drwy'r ddalfa er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gofal a gynigiwyd iddynt yn ei gyfanrwydd.

Ymwybyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol newydd ar blismona a ffurfiwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, dan nawdd a chadeiryddiaeth Cadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau y Cynulliad, John Griffiths AC, wedi cynnal sesiwn benodol yn canolbwyntio ar effaith iechyd meddwl ar wasanaethau plismona. Roedd hwn yn gyfle i Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid dynnu sylw at y pwysau mawr a roddir ar adnoddau plismona yn sgil pwysau ar wasanaethau eraill, er mwyn lobïo am gymorth ychwanegol ar gyfer plismona. Mewn cysylltiad uniongyrchol â hyn, pwysodd y Comisiynydd ar yr Ysgrifennydd Cartref i gefnogi neilltuo cyfran Cymru o'r £2 biliwn y flwyddyn o arian ychwanegol ar gyfer gofal iechyd meddwl mewn argyfwng, a ddeellir ei fod yn £2 filiwn, i gynorthwyo'r heddlu i ddiwallu'r galw cynyddol arnynt yn sgil salwch meddwl mewn gwasanaeth sydd eisoes dan bwysau mawr.

Yn ddiweddar, defnyddiodd y Comisiynydd adnoddau o gyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gyfrannu at brosiect o fewn yr heddlu gyda'r nod o wella'r ffordd y caiff swyddogion a staff eu rheoli drwy eu taith rianta. Amcan y prosiect, a lansiwyd ar 20 Mai 2019, yw darparu cymorth a chanllawiau iechyd a lles, ynghyd â sicrhau bod y staff yn parhau i deimlo'n rhan o'r sefydliad a thrwy hynny barhau ag egwyddor Heddlu Dyfed-Powys o fod yn heddlu teuluol.

[1] Yr ardaloedd peilot eraill yw: Swydd Gaergrawnt, Swydd Gaerloyw, Glannau Humber, Swydd Gaerlŷr, Swydd Nottingham a Dyffryn Tafwys

Gweithgareddau Ymgysylltu

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i ymgysylltu'n llawn â phob cymuned ar draws Dyfed-Powys. I alluogi hyn, rhaid adnabod a mynd i'r afael â rhwystrau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Mae'n ymweld yn rheolaidd â grwpiau iechyd meddwl ar draws ardal yr heddlu i glywed am brofiadau pobl sydd â salwch meddwl a'u sylwadau am blismona a materion yn ymwneud â throseddu. Mae'r gweithgareddau ymgysylltu hyn yn dal i fynd rhagddynt, ac yn ogystal â helpu i wella dealltwriaeth y Comisiynydd o faterion iechyd meddwl ar lawr gwlad, mae'r Comisiynydd hefyd o bryd i'w gilydd yn cefnogi gwaith gwasanaethau cymorth iechyd meddwl drwy wneud cyfraniadau ariannol. Rhoddir rhai enghreifftiau o weithgareddau ymgysylltu diweddar isod.

- ***Digwyddiad Troseddu Gwledig ym Mart Caerfyrddin***

Roedd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn bresennol yn y digwyddiad a oedd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl mewn lleoliadau gwledig. Roedd hwn yn gyfle i ddechrau meithrin perthynas â sefydliadau megis Tir Dewi (sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth i ffermwyr sydd mewn argyfwng ar draws Orllewin Cymru), Sefydliad DPJ (sy'n cefnogi pobl mewn cymunedau gwledig sydd â salwch meddwl, yn enwedig dynion yn y sector amaethyddol) a RABI (cymorth ariannol i ffermwyr o bob oed sydd mewn caledi).

Yn ogystal â hyn, bydd Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi blynyddol y Comisiynydd yn 2020 yn canolbwyntio ar "Gefnogi Cymunedau Gwledig", a bydd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o salwch meddwl mewn cymunedau gwledig ac amaethyddol.

- ***Oriel Gelf VC***

Aeth y Comisiynydd i Oriel Gelf VC yn Hwlffordd, sef menter celf gymunedol sy'n helpu cyn-filwyr, pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn drwy ddefnyddio celf fel ffordd greadigol o atal achosion o allgau cymdeithasol, ennyn hyder a chael hwyl. Rhoddodd yr ymweliad well dealltwriaeth i'r Comisiynydd o'r materion iechyd meddwl y mae unigolion yn eu hwynebu, gan gynnwys cyn-filwyr, a'r gwasanaeth adsefydlu y gallai Oriel VC ei gefnogi. Ers yr ymweliad, mae'r Comisiynydd wedi gwneud cyfraniad ariannol i gefnogi gwaith yr Oriel, sy'n cynnwys gwaith cadarnhaol gyda'r Tîm Plismona Bro lleol.

- ***Dyfodol Powys Futures***

Gwelodd y Comisiynydd waith gwerthfawr Dyfodol Powys Futures yn y gymuned a'r gefnogaeth a roddir i bobl ifanc ynysig ar hyd a lled Powys. Roedd prosiectau presennol yn cynnwys prosiect yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn y Drenewydd a rhaglen i blant yn canolbwyntio ar y synhwyrau, symud ac ymlacio mewn sawl lleoliad ar draws Powys. Rhannodd y Comisiynydd hefyd wybodaeth am ei gyfleoedd ariannu a sut y gallai hyn helpu gwaith allgymorth. Rhoddwyd

cyfle i'r sefydliad hefyd drafod unrhyw faterion plismona a oedd ganddynt a mynegi a oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan swyddogion lleol.

- ***Area 43***

Ymwelodd y Comisiynydd ag Area 43, sy'n cynnig gwasanaeth cwnsela cwbl broffesiynol a chyfrinachol i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion i bob person ifanc mewn ysgol uwchradd, ynghyd â disgyblion blwyddyn 6 ledled Ceredigion a Sir Gâr. Cyfarfu'r Comisiynydd â staff a defnyddwyr y gwasanaeth i drafod y posibilrwydd o weithio gyda Fforwm Ieuenctid y Comisiynydd a'r ffordd orau o gyrraedd pobl ifanc ddifreintiedig.

- ***Pobl yn Gyntaf Sir Benfro / Pembrokeshire People First***

Bu Tîm Ymgysylltu'r Comisiynydd yn gweithio'n agos â Phobl yn Gyntaf Sir Benfro, elusen annibynnol sy'n cael ei rhedeg gan ac ar gyfer oedolion sydd ag anawsterau dysgu ac awtistiaeth, i gynnal diwrnod ymgysylltu i'w haelodau a disgyblion Coleg Sir Benfro. Gwahoddwyd hefyd y Tîm Plismona Bro lleol i annog ymgysylltiad wyneb yn wyneb â'r heddlu mewn amgylchedd anffurfiol, cyfforddus. Yn ogystal â chael sylwadau gan y grŵp ynghylch yr heddlu a materion lleol, cafwyd gwybodaeth ac awgrymiadau gwerthfawr iawn ynghylch troseddau casineb, troseddau cyfeillio, a'u hawliau pe baent yn cael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu. Mae Tîm y Comisiynydd hefyd wedi cynnal sgyrsiau cychwynnol â Phobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin ynghylch cynnal sesiwn debyg gydag aelodau'r elusen honno.

- ***Cymdeithas Alzheimer, Rhydaman a Mencap Aberaeron***

Ymwelodd y Comisiynydd â'r grwpiau hyn i gael clywed barn gweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth ynghylch plismona lleol. Cododd ymwybyddiaeth hefyd ynghylch cynllun Pegasus Heddlu Dyfed-Powys, sy'n helpu unigolion sy'n ei chael yn anodd cyfathrebu i gysylltu â'r heddlu.

Gwasanaethau wedi'u comisiynu

Roedd yr asesiad o anghenion a gwblhawyd yn ddiweddar ar ran y Comisiynydd yn nodi bod mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn un o'r prif broblemau sy'n wynebu pob gwasanaeth a gomisiynir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wrth atgyfeirio cleientiaid at wasanaethau arbenigol. Gan fod hwn yn ofyniad craidd i iechyd ei drosglwyddo, nid yw'n fwriad i'r Comisiynydd ddod yn opsiwn wrth gefn o ran ariannu gwasanaethau lle ceir bylchau mewn gwasanaethau statudol. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i barhau i lobïo partneriaid a Gweinidogion ynghylch mynediad gwael a darpariaeth wael o ran gwasanaethau iechyd meddwl i droseddwyr a dioddefwyr fel ei gilydd. Mae cyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ym mis

Gorffennaf wedi ei drefnu i ganolbwyntio ar iechyd meddwl er mwyn adolygu ac archwilio'r sefyllfa bresennol o safbwynt yr holl sefydliadau partner Cyfiawnder Troseddol.

Cyllid grant

Mae'r Comisiynydd wedi dyfarnu grant o £6,920 i Asiantaeth 'Eiriol Mental Health Advocay' i ymchwilio i'r rhesymau dros aildroseddu ymhlith pobl sy'n gadael y carchar ac sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Y bwriad yw torri'r cylch aildroseddu, gan atal troseddau newydd rhag digwydd drwy gynnig gwasanaethau eiriolaeth unigryw un i un. Mae hyn yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael y gefnogaeth gywir wedi'i theilwra ar yr adeg gywir, a hynny cyn cael eu rhyddhau ac ar adeg eu rhyddhau.

Casgliad

Mae'r Comisiynydd yn gwneud cynnydd da o dan bob llinyn o'i ymrwymiad i ddiogelu pobl fregus, yn enwedig o ran:

- gweithio gyda phartneriaid i wella ein dealltwriaeth o'r gofynion sy'n gysylltiedig â salwch meddwl a datblygu ymateb mwy cydlynol i ddigwyddiadau'n ymwneud â salwch meddwl;
- eiriol ymateb rhesymol a chymesur gan staff rheng flaen wrth ymdrin â phobl sy'n dioddef salwch meddwl;
- ymgysylltu a gweithio gyda phobl sydd wedi byw gyda salwch meddwl er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r materion y maent yn eu hwynebu; a
- chefnogi'r Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau bod pobl sy'n dioddef salwch meddwl yn cael eu trin mewn canolfan iechyd ac nid yn cael eu cadw yn y ddalfa.

Mae trosolwg y Comisiynydd o'r Cynllun Brysbennu Iechyd Meddwl ynghyd â hawliau ac urddas pobl a gedwir yn y ddalfa yn cynnig sicrwydd bod unigolion bregus yn cael eu cefnogi'n briodol gan Heddlu Dyfed-Powys.

Mae ystod eang o weithgareddau ymgysylltu'r Comisiynydd a'i bartneriaethau gwaith yn sicrhau bod ganddo gyfleoedd rheolaidd i ddeall safbwyntiau a phrofiadau unigolion. Caiff y ddealltwriaeth hon ei defnyddio o fewn yr heddlu i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi ynghyd â dylanwadu ar weithgareddau lobïo'r Comisiynydd.

Mae cyfraniadau ariannol y Comisiynydd i elusennau sy'n seiliedig yn ardal Dyfed-Powys yn helpu i ehangu'r rhwydwaith o wasanaethau cymorth ar gyfer pobl fregus ac mae hyn yn lleihau'r risg y bydd angen i unigolion gael eu cadw yn y ddalfa. Mae'r Comisiynydd yn parhau i weithio'n lleol â phartneriaid megis y gwasanaeth iechyd ac ar lefel genedlaethol â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, Aelodau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru i lobïo am fynediad gwell at ofal

mewn argyfwng iechyd meddwl. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo ymhellach yn 2019/20 wrth i'r Comisiynydd ddechrau ar ei rôl fel Cadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan a thrwy Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.